CYNGOR SIR POWYS ac ESGOBAETH LLANELWY

HYSBYSIAD O GYNNIG I AD-DREFNU YSGOLION DAN DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

Rhoddir rhybudd trwy hyn yn unol ag adrannau 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 (y Ddeddf) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Esgobaeth Llanelwy, Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0RD (yr Esgobaeth) wedi iddynt ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig:-

- **O 1 Medi 2020:**
  Sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg Newydd yr Eglwys yng Nghymru (Gwirfoddol a Gynorthwyir) i fechgyn a merched o 4 i 11 oed a fydd yn gweithredu ar safle presennol Ysgol Gynradd Gymunedol Banw, Llangadfan, Y Trallwng, Powys. Bydd gan yr Ysgol Newydd arfaethedig gymeriad crefyddol yr Eglwys yng Nghymru a bydd yn cael ei chynnal a'i chadw gan Gyngor Sir Powys.

Mae'r cynnig hwn yn gysylltiedig â'r cynigion isod i derfynu Ysgol Gynradd Gymunedol y Banw ac Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (Sefydledig) Llanerfyl.

Rhoddir rhybudd trwy hyn yn unol ag Adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 (y Ddeddf) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG (y Cyngor), wedi iddo ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig:

- **O 31 Awst 2020:**
  Derfynu'r ddwy ysgol ganlynol:
  - Ysgol Gynradd Gymunedol Banw, Llangadfan, Y Trallwng, Powys, SY21 0NW;
  - Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (Sefydledig) Llanerfyl, Llanerfyl, Y Trallwng, Powys, SY21 0HZ.

Mae'r ddwy Ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw yn gyfredol gan Gyngor Sir Powys.

Mae'r cynigion hyn yn gysylltiedig â'r cynnig uchod i sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yr Eglwys yng Nghymru (Gwirfoddol a Gynorthwyir) yn Llangadfan, Y Trallwng, Powys.

Gan fod y cynigion uchod yn gysylltiedig â'i gilydd, ni fydd yr un cynnig yn mynd yn ei flaen oni bai fod yr holl gynigion yn cael eu derbyn.

Cynhaliodd y Cyngor a'r Esgobaeth gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y Cyngor a'r Esgobaeth a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Powys: https://cy.powys.gov.uk/article/4468/Ysgol-Gynradd-Dyffryn-Banw-ac-Ysgol-Sefydledig-yr-Eglwys-yng-Nghymru-Llanerfyl neu https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-diocese-church-schools/

Derbyniadau
Corff Llywodraethu'r ysgol newydd fydd yn gyfrifol am drefniadau derbyn yr ysgol newydd.

Nifer y derbyniadau i'r rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysgol am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi i'r cynigion gael eu gweithredu fydd 10.

Bydd derbyniadau i'r ysgol newydd trwy drosglwyddiad awtomatig yn achos disgyblion amser llawn ar y gofrestr ar yr adeg y bydd Ysgol Gynradd Gymunedol y Banw ac Ysgol (Sefydledig) yr Eglwys yng Nghymru yn cau.

O 1 Medi 2020:

- Bydd disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Banw ac Ysgol Sefydledig yr Eglwys yng Nghymru, Llanerfyl ar 31 Awst yn cael lle yn yr ysgol newydd;
- Bydd pob derbyniad arall trwy drefniadau derbyn y Corff Llywodraethu, nad ydynt yn ystyried rhyw, tueddiadau na gallu'r plentyn.

Gall rhieni fynegi dewis i fynd i ysgol arall, a bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis o'r fath a fynegir yn amodol ar Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86(3).

Categori Iaith
Yn unol â diffiniad Dogfen Wybodaeth rhif 023/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg", Categori 1 – Ysgol Gynradd Cyfrwng-Cymraeg fydd categori iaith yr ysgol newydd arfaethedig

Capasiti'r Ysgol
O 1 Medi 2020, bydd capasiti 'r Ysgol Newydd yn 72 + 10 o leoedd meithrin.

Cludiant
Bydd y trefniadau cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor rhwng y Cartref a'r Ysgol.

Gweithredu
Bydd y cynigion yn cael eu gweithredu gan Gyngor Sir Powys ac Esgobaeth Llanelwy.

Sut i fynegi Gwrthwynebiad i'r Rhybudd yma
Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion hyn o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwrnod eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 29 Mai 2019.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys, Neuadd Sir Powys, Llandrindod, Powys, LD1 5LG neu i education@powys.gov.uk.

Bydd Cyngor Sir Powys yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed o fewn y cyfnod gwrthwynebu (a heb eu tynnu'n ôl trwy lythyr), ynghyd â sylwadau'r Cyngor arnynt, o fewn y cyfnod a nodir yn "y Cod".

Dr Caroline Turner
Prif Weithredwr
Ar ran Cyngor Sir Powys

Mrs Rosalind Williams
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes
Ar ran Esgobaeth Llanelwy

Dyddiedig y diwrnod hwn 1 Mai 2019

NODYN EGLURHAOL
(Nid yw'r nodyn eglurhaol hwn yn ffurfio rhan o'r Rhybudd, ond cynigir y nodyn fel modd o egluro'r sefyllfa)

- Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor i gau ysgol gymunedol; sefydledig neu wirfoddol a'r pŵer i agor ysgol gymunedol neu wirfoddol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i agor ysgol wirfoddol. Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth felly wedi gweithredu ar y cyd ar y cynnig, a byddant yn cydweithio i roi hyn ar waith os mai dyma fydd yn cael ei benderfynu.

- Bwriad y Cyngor yw cau Ysgol Gynradd Gymunedol y Banw ac Ysgol (Sefydledig) yr Eglwys yng Nghymru Llanerfyl ar 31 Awst 2020.
- Mae'r Esgobaeth yn bwriadu Sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg Newydd yr Eglwys yng Nghymru (gwirfoddol a gynorthwyir) a fydd yn gweithredu ar safle Ysgol Gynradd Gymunedol Banw, Llangadfan, Y Trallwng, Powys o 1 Medi 2020.
- Ni fydd hyn yn effeithio ar hawl rhieni i fynegi eu dewis o ysgolion eraill.
- Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud ar gyfer disgyblion cymwys dan bolisi cludiant ysgol y Cyngor.
- Manylwyd ar sail resymegol y cynnig hwn mewn dogfen ymgynghori a ddosbarthwyd fis Medi 2018.
- Sefydlir Corff Llywodraethu Dros Dro yr ysgol newydd cyn y dyddiad gweithredu, a hwn fydd yn gyfrifol am: penodi Pennaeth, enwi'r ysgol newydd, sefydlu gweledigaeth ac ethos, gwneud trefniadau gan gynnwys y cwricwlwm, derbyniadau a dyrannu lle, a bod yn gyfrifol am agor yr ysgol newydd hyd nes y bydd y corff llywodraethu newydd ar waith.

POWYS COUNTY COUNCIL and THE DIOCESE OF ST. ASAPH

NOTICE OF SCHOOL REORGANISATION PROPOSAL UNDER THE SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION (WALES) ACT 2013

Notice is hereby given in accordance with Section 41 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that The Diocese of St Asaph, Diocesan Office, High Street, St Asaph, LL17 0RD (the Diocese), having consulted such persons as required, propose to:

- **From 1st September 2020:**
  Establish a new Welsh Medium, Voluntary Aided Church in Wales Primary school for boys and girls aged 4-11 years old, that will operate on the current site of Banw C.P. School, Llangadfan, Welshpool, Powys. The proposed new school will have a religious character of Church in Wales and will be maintained by Powys County Council.

This proposal is linked to the proposals below to discontinue Banw C.P. School and Llanerfyl Church in Wales (Foundation) School.

Notice is hereby given in accordance with Section 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Powys County Council of County Hall, Llandrindod Wells, Powys LD1 5LG (the Council), having consulted such persons as required, propose to:

- **From 31st August 2020:**
  Discontinue the following two schools:
  - Banw C.P. School, Llangadfan, Welshpool, Powys, SY21 0NW;
  - Llanerfyl C. in W. (Foundation) School, Llanerfyl, Welshpool, Powys, SY21 0HZ.

Both Schools are currently maintained by Powys County Council.

These proposals are linked to the proposal above to establish a new Welsh Medium, Voluntary Aided Church in Wales Primary School at Llangadfan, Welshpool, Powys.

As the proposals above are linked, no proposal will be taken forward unless all proposals proceed.

The Council and the Diocese undertook a period of consultation before deciding to publish these proposals. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the responses of the Council and the Diocese and the views of Estyn is available on the Powys County Council website: https://en.powys.gov.uk/article/4465/Banw-C.P.-School-and-Llanerfyl-C.-in-W.-Foundation-School or https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-diocese-church-schools/

Admissions
The Governing Body of the new school will be the admissions authority and will be responsible for the school's admissions arrangements.

The admission number for first time admission to the school in the first year in which the proposals have been implemented is 10.

Admission to the new school will be via automatic transfer for full time pupils on roll at the point of closure at Banw C.P. School and Llanerfyl Church in Wales (Foundation) School.

From 1 September 2020:

- Pupils registered at Banw C.P. School and Llanerfyl C. in W. (Foundation) School, as at the 31 August 2020, will be allocated places at the New School;
- All other admissions will be via the Governing Body's admission arrangements, which do not take account of the sex, aptitude or ability of the child.

Parents may express a preference for another school and the Council will comply with any such expressed preference subject to the School Standards and Framework Act 1998, Section 86(3).

Language Category
The language category of the proposed new school, as defined by "Defining schools according to Welsh medium provision" Welsh Assembly Government Information document No: 023/2007 is Category 1 – Welsh-medium Primary School

School Capacity
From 1 September 2020, the New School's pupil capacity will be 72 + 10 nursery places.

Transport
Transport arrangements will be in accordance with the Council's Home-to-School Transport Policy.

Implementation
The proposals will be implemented by Powys County Council and the Diocese of St. Asaph.

How to Object to this Notice
Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 29th May 2019 any person may object to the proposals.

Objections should be sent to Dr Caroline Turner, Chief Executive, Powys County Council, Powys County Hall, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG or by email to education@powys.gov.uk.

Powys County Council will publish a summary of any such objections made within the objection period (and not withdrawn in writing), together with the Council and Diocese's observations thereon, within the period set out in "the Code".

Dr Caroline Turner
Chief Executive
For Powys County Council

Mrs Rosalind Williams
Director of Education and Lifelong Learning
For the Diocese of St Asaph

Dated this day 1st May 2019

EXPLANATORY NOTE
(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)

- The Act gives the Council the power to close a community, foundation or voluntary school and the power to open a community or voluntary school. The Act also give the Diocese the power to open a voluntary school. Accordingly, the Council and the Diocese have worked jointly on the proposal and will work together to implement it should it be determined.
- The intention of the Council is to close Banw C.P. School and Llanerfyl C. in W. (Foundation) School on the 31 August 2020.
- The Diocese intends to establish a new Welsh-medium Voluntary Aided Church in Wales Primary School that will operate from the current site of Banw C.P. School from the 1 September 2020.

- This will not affect the right of parents to express a preference for other schools.
- Transport arrangements will be made for pupils who qualify under the Council's school transport policy.
- The rationale for this proposal was set out in a consultation document circulated in September 2018.
- The Temporary Governing Body of the new school will be established prior to the implementation date and will be responsible for; the appointment of Headteacher, naming of the new school, establishing the vision and ethos, making organisational arrangements including curriculum, admissions and accommodation and have the responsibility for the opening of the new school until such time as the new governing body is in place.